Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Diogelu Dyfodol Cymru

© Hawlfraint y Goron 2017
WG33593 ISBN argraffau: 978-1-78903-037-2 ISBN digidol: 978-1-78903-036-5

# Cynnwys


Crynodeb 7

1. Yr Achos dros Bolisïau Rhanbarthol 9

2. Etifeddiaeth y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: y Gwersi a Ddysgwyd 14

3. Gweithio mewn Partneriaeth 16

4. Dyfodol Heb Ffiniau 18

5. Buddsoddi yn ein Dyfodol 24

6. Ein Dull Gweithredu 28

## Rhagair y Prif Weinidog



Bydd degawdau o bartneriaeth Cymru â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn gadael etifeddiaeth y gallwn ddatblygu ein dyfodol economaidd arni. Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i arwain y broses hon ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid yng Nghymru a thu hwnt i lunio'r ffordd orau o fynd ati.

Roedd ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* ym mis Ionawr 2017 yn amlinellu'r heriau cyffredinol i Gymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE. Mae buddsoddiad yr UE wedi helpu i wella economi Cymru, ond mae rhannau o'r wlad yn parhau i wynebu heriau economaidd strwythurol na fydd yn diflannu wrth inni ymadael â'r UE: yn wir, mae'n debyg y bydd Brexit yn cynyddu'r heriau hyn. Mae'r angen i barhau i fuddsoddi mewn datblygu economaidd rhanbarthol yn bwysicach nag erioed. Ni ddylid defnyddio Brexit i gymryd arian oddi wrth ein cymunedau tlotaf. Bwriad y ddogfen hon yw gosod dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi buddsoddi rhanbarthol ar ôl i ni ymadael â'r UE.

Wrth i rai o'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â chyllid yr UE ddod i ben, bydd gennym gyfle i weithio'n wahanol, a byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o weithio dros amser ond gan gadw'r arferion gorau. Bydd polisïau'n canolbwyntio ar yr ardaloedd lle mae eu hangen, yn hytrach na dilyn map artiffisial. Mae modd ffurfio partneriaethau newydd a deinamig ac mae gennym gyfle i arloesi a chysylltu polisïau newydd mewn ffyrdd ffres llawn dychymyg.

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i wella bywydau pawb yng Nghymru drwy ein strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb. Mae'r holl ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit yn niweidiol ac rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i gynllunio ar gyfer ein dyfodol tymor hir. Gellir gweld ein blaenoriaethau ar gyfer ffyniant economaidd yn ystod tymor y Cynulliad hwn yn y Cynllun Gweithredu Economaidd. Bydd ein ffordd o fuddsoddi'n rhanbarthol o 2020 ymlaen yn adeiladu ar y camau sydd yn y Cynllun Gweithredu hwnnw, ac yn canolbwyntio ar roi sylw i'r prif heriau strwythurol yn economi Cymru. Mae angen gweithio gyda'n gilydd mewn ffordd gyson i wella seilwaith, codi lefelau sgiliau, rhoi hwb i entrepreneuriaeth ac annog arloesi er mwyn cefnogi twf ar draws pob rhan o Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ein dyfodol hirdymor o ddifrif fel y gwelir yn ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ein nod yw gweld canlyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn integreiddio'n llawn. Mae gennym rai blynyddoedd ar ôl ar raglenni presennol yr UE, ond mae'r amser yn brin a nawr yw'r amser i drafod y dyfodol. Rwy'n gobeithio y bydd partneriaid ledled Cymru yn ymuno â ni i bennu pa ddulliau gweithredu fydd yn gweithio orau i ddyfodol y wlad.

**Carwyn Jones**
Prif Weinidog Cymru

## Rhagarweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid



Ar ddechrau'r broses ddatganoli, Cronfeydd Strwythurol yr UE oedd un o'r prif faterion cyntaf ar ein hagenda. Rydym wedi dysgu cymaint drwy ein partneriaethau o fewn Cymru a chyda'r Comisiwn Ewropeaidd am yr hyn sy'n gweithio. Yn yr un modd, rydym wedi dysgu llawer am yr hyn y gellid ei wneud yn well. Byddwn yn datblygu'r etifeddiaeth honno y tu allan i'r UE. Yn hollbwysig, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar swyddi, twf a phobl.

Mae'n bosibl mai'r wers bwysicaf i'w dysgu yw bod angen inni sicrhau'r math gorau o bartneriaeth er mwyn llwyddo. Byddwn yn gweithio gyda busnesau, awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau, y trydydd sector a chymunedau – partneriaid sydd hefyd yn gwybod beth sydd orau i'n gwlad. Gyda'n gilydd, rydym wedi dysgu sut i lunio rhaglenni hirdymor ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol a sut i brofi syniadau am brosiectau a fydd yn gweithio. Dyna'r etifeddiaeth y byddwn yn ei datblygu.

Byddwn yn gweithio mewn ffordd adeiladol gyda Llywodraeth y DU ar agweddau o gyflawni economaidd ond byddwn yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw ymgais i ganoli polisi datblygu rhanbarthol yn Llundain. Byddai dull "Cronfa Ffyniant Gyffredin" Llywodraeth y DU, pe byddai'n cael ei weithredu ar draws y DU a'i gyfarwyddo o Lundain, yn ymosodiad ar ddatganoli, ac yn peryglu gweld llai o gyllid wedi'i seilio ar anghenion yn cyrraedd ein cymunedau tlotaf.

Llywodraeth Cymru sydd yn y lle gorau i arwain y gwaith o lunio polisi rhanbarthol ar gyfer y dyfodol, ar ôl Brexit, am bedwar rheswm neilltuol. Yn gyntaf, mae gennym bron i 20 mlynedd o brofiad o reoli polisi rhanbarthol a chyllid rhanbarthol. Mae hyn wedi arwain at waddol pwysig o arbenigedd yn llunio a darparu gwasanaethau economaidd rhanbarthol effeithiol. Yn ail, mae gennym strwythurau yn eu lle. Er mwyn troi polisi economaidd rhanbarthol yn waith ymarferol mae angen pobl ar lawr gwlad. Mae gan Lywodraeth Cymru bresenoldeb sylweddol ym mhob rhan o Gymru. Nid oes modd cyflawni polisi rhanbarthol yn effeithiol o bell.


Yn drydydd, mae'r partneriaethau eisoes yn eu lle gennym, ar bob lefel, i symud ymlaen i sicrhau llwyddiant yn y maes hanfodol bwysig hwn. Mae gennym fforymau cenedlaethol lle mae Llywodraeth Cymru yn dod ynghyd, yn uniongyrchol, gyda buddiannau sector preifat, sefydliadau ymchwil, awdurdodau lleol, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus. Yn gynyddol, mae gennym bartneriaethau rhanbarthol yn eu lle, gyda datblygiadau newydd i ddod yn y dyfodol o ran llywodraeth leol a pholisi economaidd. Ac ar lefel leol, mae'n profiad o weithio wrth ochr partneriaid i ddarparu cyllid Ewropeaidd yn golygu bod gennym sawl perthynas eisoes yn gweithredu a chyflawni gyda'i gilydd ym mhob rhan o Gymru.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ysgogiadau eraill sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau llwyddiant polisi rhanbarthol. Yn y papur hwn rydym yn pwysleisio'r angen am ddull gweithredu sy'n cyfuno buddsoddiad mewn pobl a lleoedd. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gwella sylfaen sgiliau'r boblogaeth, er mwyn i ni fedru manteisio ar gyfleoedd economaidd y dyfodol. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw datblygu buddsoddiadau mewn trafnidiaeth, ynni a seilwaith TGCh a fydd yn ffurfio lleoedd y dyfodol. Nid oes gan unrhyw gorff arall fanteision cyfatebol sydd mor hanfodol i ddarparu polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru, ar gyfer heddiw ac yfory.

Ynghyd â'n cyfrifoldebau datganoledig, rhaid inni hefyd gael llais yn y meysydd pwysig nad ydynt wedi'u datganoli. Bydd y polisi ar gystadleuaeth, cytundebau masnach rydd dwyochrog posibl, cymorth dewisol, cymorth gwladwriaethol a fframweithiau caffael cyhoeddus i gyd yn bwysig i lywio ein dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn ennyn deialog. Rydym yn amlinellu ystod o ystyriaethau i ysgogi trafodaeth. Rydym am wybod beth yw barn ein partneriaid a byddwn yn parhau â'r drafodaeth honno yn y cyfnod sydd i ddod. Rydym hefyd yn edrych y tu hwnt i Gymru ac yn mynd ati i edrych yn ymhellach ar gyfleoedd i weithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill, gan adeiladu ar arferion gorau rhyngwladol. Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad , ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, i weithio gyda'n partneriaid a'n ffrindiau yn Ewrop.

Byddwn yn wynebu llawer o heriau wrth ymadael â'r UE ond hefyd mae cyfleoedd yn codi drwy hyn. Gyda'n gilydd, rhaid inni feddwl nawr am y math o Gymru rydym am ei datblygu yn y dyfodol a'r ffordd orau o gyflawni hyn.



**Mark Drakeford**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

# Crynodeb

Yn y Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru* (Ionawr 2017) mae Llywodraeth Cymru yn gosod chwe blaenoriaeth ar gyfer dyfodol y DU y tu allan i'r UE. Un o'r blaenoriaethau hyn yw pwysigrwydd parhad cyllid a buddsoddi rhanbarthol datganoledig ar lefel sy'n cyfateb i'r hyn y mae Cymru'n ei dderbyn o'r UE ar hyn o bryd o leiaf. Mae'r ddogfen bolisi newydd hon yn datblygu ein ffordd o feddwl ar ddyfodol polisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru. Rydym yn cytuno â Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol yn ei ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol, bod yn rhaid wynebu ein heriau yn greadigol ac yn uchelgeisiol, ac mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar y gwaith hwnnw.

Mae'r papur newydd hwn yn cynnwys pum elfen allweddol.

Yn gyntaf, rydym yn cyflwyno'r achos dros barhau i fuddsoddi'n rhanbarthol. Drwy ein partneriaeth â'r UE, rydym wedi cynhyrchu tueddiadau calonogol ond mae'r gwendidau strwythurol yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, ac rydym yn pwysleisio bod angen canolbwyntio ar y tymor hwy. Rhaid targedu buddsoddiadau yn ddaearyddol a sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth hefyd ysgogi syniadau newydd ac arloesedd.

Yr ail elfen yw'r gwersi a ddysgwyd o fod yn rhan o bolisi rhanbarthol yr UE ers 20 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid mewn cymunedau, a chyda'r Comisiwn Ewropeaidd, ac rydym wedi datblygu sylfaen dystiolaeth gref o'r hyn sy'n gweithio'n dda. Rydym wedi deall manteision gweithio'n strategol a buddsoddi mewn pobl a lleoedd mewn nifer ymarferol o brosiectau yn hytrach na cheisio lledaenu'r adnodd yn rhy denau gyda rheolaeth ysgafn o'r canol. Mae gwahaniaethau rhanbarthol yn parhau'n her a'r unig ffordd o fynd i'r afael â nhw yw drwy osod strategaeth genedlaethol yn seiliedig ar gynlluniau gweithredu a luniwyd ac a reolir yn rhanbarthol.

Mae'r drydedd elfen yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae hyn yn hanfodol er mwyn llwyddo, a dyma'r wers bwysicaf o'n hymgysylltiad â chronfeydd yr UE. Rhaid parhau â phroses agored a thryloyw o wneud penderfyniadau fel mater o flaenoriaeth. Rhaid i bartneriaethau fod yn strategol, yn gryf ac yn gynhwysol.
Rhaid i ganlyniadau fod yn seiliedig ar bobl ac ar leoedd, a rhaid i bartneriaethau fod yn gysylltiedig yn strategol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Ein pedwaredd elfen yw y dylai Cymru barhau â'n traddodiad fel gwlad sy'n agored a chroesawgar, a datblygu ar hyn. Byddwn yn cydweithio ar draws ffiniau a byddwn yn gwella ein hymdrech economaidd fyd-eang. Byddwn yn cadw ein cydberthnasau a'n rhwydweithiau rhyngwladol ac yn eu datblygu fel rhan o'n datblygiad economaidd yn y dyfodol.

Mae'r pumed elfen yn ymwneud â'r ffordd y gellid cyflawni rhaglenni buddsoddi sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd yn y dyfodol. Mae'n ystyried llywodraethu, cynllunio a chyllid a'r angen am reolau a meini prawf tryloyw wrth i ni lunio rhaglenni'r dyfodol. Rhaid inni adlewyrchu heriau'r dyfodol yn hytrach na rhagdybio y bydd arferion y gorffennol bob tro yn darparu'r templed gorau ar gyfer yr hyn sydd o'n blaen. Bydd ein partneriaeth â'r UE yn gadael etifeddiaeth gadarn a rhaid inni wynebu ein dyfodol yn hyderus yn ein gallu gyda'n gilydd.

**Camau i wireddu'n dull gweithredu**

- Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i gadw at yr addewidion a wnaed yn ymgyrch refferendwm yr UE i sicrhau nad yw Cymru geiniog ar ei cholled wrth i ni ymadael â'r UE. Rhaid i hyn gynnwys addasiad parhaol uwch i waelodlin Llywodraeth Cymru sy'n cyfateb o leiaf i'r lefelau a gafwyd yn hanesyddol drwy gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE heb unrhyw gyfyngiadau ar y gwariant.
- Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau y bydd Cymru a'r DU yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cydweithredu Ewropeaidd, gan gynnwys Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol ac amrywiol raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Mae Cymru wedi mwynhau partneriaeth effeithiol gyda Banc Buddsoddi Ewrop, ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i barhau i fod yn bartner yn y sefydliad hwn ar ôl Brexit.
- Byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid ar draws Cymru.
- Byddwn yn ymgynghori ar gyfres o amcanion a blaenoriaethau craidd, ond yn cynnwys hyblygrwydd i ranbarthau addasu dulliau buddsoddi penodol yn lleol.
- Bydd y model newydd hwn yn darparu fframwaith ar gyfer defnyddio cyllid rhanbarthol amgen, ac integreiddio buddsoddiad o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Bydd ein buddsoddiadau ar sail cyfres gyffredin o reolau a fydd mor syml â phosib ac yn adlewyrchu safonau a ddatblygwyd ac a osodwyd yng Nghymru, gan osgoi creu rheolau newydd ar gyfer cyllid amgen yn unig.
- O dan y prif fframwaith, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda'n partneriaid rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau buddsoddi i ysgogi twf ym mhob rhanbarth, yn unol â chryfderau a blaenoriaethau penodol.
- Byddwn yn datblygu fframwaith er mwyn sicrhau dulliau gweithredu cyson sy'n rhoi mwy o gyfrifoldebau a phwerau i wneud penderfyniadau yn nwylo partneriaethau rhanbarthol, gan adeiladu gallu lle bo angen.
- Byddwn yn sicrhau bod prosesau monitro a gwerthuso cryfach, ond symlach yn eu lle i wella'r sylfaen o dystiolaeth, helpu i gyflawni, ac amlygu a goruchwylio cynlluniau buddsoddi.
- Byddwn yn hyrwyddo ffordd arbrofol o ddatblygu rhanbarthol er mwyn cryfhau'r sylfaen o dystiolaeth.

# 1. Yr Achos dros Bolisïau Rhanbarthol

**Bydd partneriaeth datblygu economaidd Cymru â'r UE yn gadael etifeddiaeth gadarnhaol y gallwn ddatblygu arni yn y dyfodol. Mae Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE wedi llwyddo yng Nghymru, gan helpu i haneru'r bwlch rhwng cyfraddau anweithgarwch economaidd Cymru a'r DU. Byddwn yn parhau i roi pwyslais ar bartneriaeth, lleoliad, arloesi a sgiliau fel llwybr allan o dlodi a ffordd o greu ffyniant i bawb. Swyddi, twf a phobl yw ein pryderon craidd o hyd.**

Mae rhannau o'n heconomi yn parhau'n wan. Mae rhai ardaloedd yn dal i ddioddef o faterion strwythurol hirdymor ac maent yn llusgo y tu ôl i feysydd sy'n perfformio'n well. Mae lefelau cynhyrchiant is, poblogaeth hŷn, effeithiau bod ar y cyrion yn ddaearyddol, a chyfuniad anffafriol o sgiliau a diwydiant i gyd yn heriau a wynebir gan wahanol rannau o Gymru.

## Cynnydd a'r angen i fuddsoddi'n barhaus


Mae gwahaniaethau hanesyddol yn y DU yn parhau i ymestyn, yn sgil twf cryfach yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr (Ffigur 1). Yn wir, y DU sy'n profi'r lefelau uchaf o wahaniaethau economaidd rhanbarthol yn Ewrop.[1]

Mae cyllid yr UE yn adlewyrchu anghenion cymharol ac wedi'i dargedu i helpu economi a marchnad lafur Cymru i adfer ar ôl degawdau o ddirywiad diwydiannol. Bu'r cyllid hwn yn hanfodol i fusnesau a chymunedau Cymru. Mae cronfeydd yr UE wedi helpu i ddenu buddsoddiadau ehangach o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae cyllid yr UE wedi cefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith, ymchwil ac arloesi a sgiliau, gan dargedu'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Gallai'r buddsoddiadau hyn gymryd degawdau i ddangos eu heffaith yn llawn, ond mae rhai tueddiadau hirdymor cadarnhaol i'w gweld. Mae Cymru wedi lleihau'r bylchau â chyfartaleddau'r DU mewn nifer

Ffigur 1: Gwerth Ychwanegol Gros (Incwm), fesul pen y boblogaeth ar brisiau sylfaenol presennol (1997 a 2015) [Ffynhonnell: ONS]





1 Y Gymdeithas Astudiaethau Rhanbarthol (2015) Spatially rebalancing the UK Economy: the need for a new policy model.

o feysydd ers 2000. Ar 72.5 y cant mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru llawer uwch na'r gyfradd o 65-67 y cant a welwyd yn ystod blynyddoedd cyntaf y ganrif hon. Mae cyfradd ddiweithdra Cymru bellach yn is na chyfartaledd y DU.[2]

Hyd at gwymp y banciau yn 2008 a'r dirwasgiad mawr a ddaeth wedi hynny, roedd pobl Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn well eu byd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r holl flynyddoedd o gyni wedi creu heriau economaidd sylweddol ond yn dilyn tri chylch dilynol o Gronfeydd Strwythurol yr UE, bydd pobl Cymru yn well eu byd, ac yn fwy parod nag y byddent wedi bod fel arall.

Bu'r effaith yn drawiadol yng Nghymru, yn enwedig o ran lefelau cyflogaeth yn codi a lefelau diweithdra yn gostwng. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cau bylchau hanesyddol â chyfartaledd Dwyrain Cymru a'r DU. Mae gwelliannau i'r lefelau cyflogaeth (Ffigur 2) yn seiliedig ar gwymp i'r lefelau anweithgarwch economaidd;[3] meysydd sydd wedi'u targedu'n benodol gan raglenni buddsoddi Llywodraeth Cymru a'r UE dros yr 20 mlynedd diwethaf.


## Rhanbarthau Cymru a fydd yn elwa ar Gronfeydd Strwythurol yr UE rhwng 2014 a 2020





2 Cyfraddau diwethdra ILO yn ôl gwlad yn y DU/rhanbarth Lloegr a chwarter (wedi'u haddasu'n dymhorol), Awst 2017 – Medi 2017 (17 Tachwedd 2017), Stats Cymru.

3 Mae'r bwlch rhwng cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) rhwng Cymru a'r DU wedi lleihau o 4.9 pwynt canran yn 2001 i 2.2 pwynt canran ar 30 Mehefin 2017. Gwelwyd gostyngiad o 7.1 pwynt canran yn ystod y cyfnod hwn yn y Gorllewin a'r Cymoedd (o 28.4% i 21.3%) (Stats Cymru).

Ffigur 2: Rhanbarthau Cymru a fydd yn elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020




Ffigur 3: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gynhyrchiant Is-ranbarthol [ONS]



Er gwaetha'r llwyddiant hwn, mae heriau sylweddol yn parhau ym marchnad lafur Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys tangyflogaeth, gyda gweithwyr rhan-amser yn gweithio llai nag y dymunant neu sydd angen iddynt, ac am gyflogau is.[4] Mae heriau'n parhau o ran codi lefelau gweithgarwch economaidd, sgiliau a chynhyrchiant, yn ogystal â gwella mynediad at swyddi a hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig.
Mae lefelau isel o gynhyrchiant yn parhau'n broblem bwysig iawn sy'n gofyn am fuddsoddi dros y tymor hwy mewn sgiliau, cysylltedd ac arloesedd. Caiff rhai o'r heriau hyn eu rhannu ledled y DU a thu hwnt, ond maent yn fwy dwys yng Nghymru oherwydd materion eraill megis ei lleoliad cymharol ymylol a chymysgedd anffafriol o sgiliau.[5] Gyda'i gilydd, mae'r achos dros fuddsoddi rhanbarthol yng Nghymru wedi'i ariannu'n briodol yn gryf.

Mae'r bylchau parhaus rhwng gwerth ychwanegol gros gwahanol ranbarthau'r DU hefyd yn dangos bod angen mantoli buddsoddiadau. Mae'r bwlch hwn i'w weld yn bennaf oherwydd gwahaniaethau mewn cynhyrchiant. O ran cynhyrchiant ar lefel ranbarthol, yr unig le sy'n gweithredu uwchben cyfartaledd y DU yw Llundain a De-ddwyrain Lloegr (Ffigur 3). Mae'r bwlch rhwng Llundain a gweddill y DU yn ymestyn. Mae'r bylchau hyn yn parhau i fod yn eang ac mae twf mawr iawn Llundain yn pwysleisio'r angen am ragor o fuddsoddi yng gwledydd a rhanbarthau'r DU er mwyn cefnogi datblygu economaidd mwy cynaliadwy a chytbwys sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd.

Yn anochel, bydd rhai o anfanteision Cymru, megis ei lleoliad ymylol yn ddaearyddol, yn parhau i fodoli ar ôl inni ymadael â'r UE, beth bynnag sy'n cael ei fuddsoddi. Fodd bynnag, mae modd cyflawni llawer drwy fuddsoddi i wella cysylltedd ac arallgyfeirio economaidd er mwyn gwella sefyllfa Cymru a manteisio'n well ar ein hasedau: o'n hadnoddau naturiol i'n cryfderau arloesi a'n sectorau allweddol.

Rydym yn credu bod Cymru mewn lle da i fanteisio ar chwyldro diwydiannol newydd. Mae gennym asedau naturiol – gwynt, tonnau, dŵr – a all gynhyrchu ynni drwy'r ganrif hon. Mae gennym hefyd bobl y mae modd datblygu'u sgiliau ymhellach a'u harfogi i wneud Cymru'n wlad arloesol ac yn ffynhonnell llwyddiant yn y byd diwydiannol unwaith eto.

## Beth sy'n gweithio a syniadau newydd

Mae gwerthusiadau annibynnol[6] yn cadarnhau y bu llawer o brosiectau yng Nghymru a ariennir gan yr UE yn fwy effeithiol na ffurfiau eraill o gymorth. Er enghraifft, mae cyfranogwyr di-waith sy'n rhan o brosiectau cyflogadwyedd dan nawdd yr UE 46 y cant yn fwy tebygol o ganfod gwaith dros 12 mis na'r rhai sydd heb gymryd rhan. Mae cyfranogwyr sy'n economaidd anweithgar 84 y cant yn fwy tebygol o ganfod gwaith na phobl debyg sy'n economaidd anweithgar sydd heb elwa ar y cymorth hwn. O ran y rheini sy'n cael gwaith, mae cymryd rhan mewn prosiectau dan nawdd yr UE yn gysylltiedig â gwaith sy'n talu'n well na fyddai'n bosibl fel arall. Dywedodd chwarter y rhai a fu'n cymryd rhan mewn rhaglenni uwchsgilio wedi'u hariannu gan yr UE eu bod wedi cael dyrchafiad ers cwblhau'u cwrs. Mae cyllid yr UE wedi agor y drysau i dreialu dulliau newydd, er enghraifft camau ataliol fel buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i liniaru'r risgiau o roi'r gorau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ddiweddarach mewn bywyd. Rhaid i ni adeiladu ar y dull gweithredu arbrofol hwn, ar sail tystiolaeth, gan brofi syniadau newydd er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosib.

4 Sefydliad Joseph Rowntree (2016), Prosperity without poverty.

5 Er enghraifft, ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016, roedd gan 37.4% o'r oedolion o oed gweithio yng Nghymru gymhwyster NVQ i Lefel 4 neu uwch, tra bod 22.3% â chymhwyster islaw Lefel 2 neu ddim cymwysterau o gwbl: yn Lloegr, 40.2% a 21.1% oedd y ffigurau hyn yn eu trefn (dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth).

6 Mae'r canfyddiadau yn ymwneud yn bennaf â'r gwerthusiadau canlynol: Adroddiad Synthesis: effaith Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 ar Gymru; Dadansoddiad Ychwanegol Arolwg Ymadawyr ESF 2009-2014; gwerthusiad o'r cymorth i fusnesau a ddarparwyd gan ERDF; a gwerthusiad Cronfeydd Strwythurol 2007-13.

Mae pwyslais cynyddol ar weithio mewn partneriaeth ac integreiddio buddsoddiadau hefyd yn dwyn ffrwyth yn y Rhaglen Datblygu Gwledig. Er enghraifft, mae hyn wedi cynnwys cyfuno elfennau o gymorth i fusnesau gwledig, megis trosglwyddo gwybodaeth, i wasanaeth 'Cyswllt Ffermio' ac amrywiaeth o'r cynlluniau rheoli tir blaenorol i'r rhaglen 'Glastir' presennol. Drwy hyn, mae prosesau cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau wedi gwella, ac mae arferion gorau'n cael eu lledaenu'n well er mwyn gwella cystadleurwydd y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig hefyd wedi cryfhau datblygiad dan arweiniad y gymuned drwy ddull LEADER[7] gan arwain at gydweithio gwell a manteision rhwydweithio. Mae amrywiaeth o astudiaethau achos, gwerthusiadau ac enghreifftiau o arferion gorau ar gyfer yr holl gronfeydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[8].

## Anghenion rhanbarthol

Mae Cymru yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y DU, yn bennaf oherwydd hanes o ddirywiad diwydiannol. Er enghraifft, mae'r gwerth ychwanegol gros y pen yn y Gorllewin a'r Cymoedd £9,542 yn is na chyfartaledd y DU.[9] Ar sail ffigurau cyfrifiad 2011, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful sydd â'r gyfran uchaf a'r pumed uchaf o oedolion heb unrhyw gymwysterau o bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr (36.0 y cant a 34.3 y cant yn y drefn honno[10]). Er gwaethaf gwelliannau sylweddol i economi Cymru a'r farchnad lafur dros y blynyddoedd diwethaf, mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif i dros 20 y cant o boblogaeth Cymru wynebu tlodi cymharol yn 2014-15.[11]

Mae'r cynnydd i lefelau cyflogaeth ledled Cymru yn un o'r agweddau calonogol o hanes economaidd diweddar, ond mae prinder swyddi yn parhau mewn ardaloedd penodol. Yn ôl Sefydliad Bevan, er enghraifft, hanner nifer y swyddi y pen o boblogaeth oedran gweithio sydd ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Rhondda Cynon Taf o gymharu â chyfartaledd y DU".[12] Mae'r gwahaniaethau rhanbarthol hyn yn heriau hirdymor sy'n dangos yr angen am ddealltwriaeth fwy manwl o anghenion penodol lleoedd gwahanol. Fel hyn, gallwn sicrhau bod modd i bob rhan o Gymru elwa ar dwf economaidd.

Bydd y blynyddoedd o weithio mewn partneriaeth gyda'r UE yn gadael gwaddol cadarnhaol sy'n amlwg drwy'r tueddiadau uchod. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yr un mor glir mai'r unig ffordd o fynd i'r afael â heriau economaidd hirdymor yw drwy ymyraethau hirdymor parhaus. Ar ben hynny, mae ystod o ddadansoddiadau economaidd (gan gynnwys y rhai yn ein Papur Gwyn ***Diogelu Dyfodol Cymru***) yn amlygu'r tebygrwydd y bydd ymadael â'r UE yn niweidio economi'r DU gyfan – gyda Chymru'n agored iawn i'r effeithiau hyn. Mae'n hanfodol i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid barhau i ddangos ymrwymiad i'n cymunedau, yn enwedig y rheini dan anfantais, a pharhau i roi cymorth cyllid sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r atebion yn y brwdfrydedd yn y cymunedau hynny a'n cenhadaeth yw parhau i gydweithio i ddatblygu'r dyfodol rydym oll am weld. Mae'n amlwg bod angen parhau i fuddsoddi yn rhanbarthau Cymru tu hwnt i Brexit.

7 Daw 'LEADER' o'r ymadrodd Ffrangeg "Liaison Entre Actions de Développement de l'Économique Rurale" sy'n golygu 'Cysylltiadau rhwng yr economi wledig a chamau datblygu'.
8 Er enghraifft: www.gov.wales/funding/eu-funds/?skip=1&lang=cy; a www.gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/casestudies/?skip=1&lang=cy.
9 Gwerth Ychwanegol Gros (Incwm), fesul pen y boblogaeth ar brisiau sylfaenol presennol 2015, ONS.
10 Cyfrifiad 2011 ONS.
11 Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan (2016), Prosperity without poverty.
12 Sefydliad Bevan (2016), Economic Priorities for Wales.

# 2. Etifeddiaeth y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: y Gwersi a Ddysgwyd

**Arweiniodd ein profiad cynnar ni yng Nghymru o amrywiol ffynonellau cyllid yr UE at ffyrdd gwahanol o gyflawni. Rydym wedi dysgu o'r rhain ac fe fydd hyn o gymorth wrth i ni lunio ein model buddsoddi rhanbarthol newydd ar ôl ymadael â'r UE.**

## Dulliau gweithredu presennol buddsoddiadau rhanbarthol a lleol yr UE

Mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol wedi trawsnewid o weithredu mewn ffordd weddol rhydd o'r gwaelod i fyny, gyda dros 3,000 o brosiectau yn cael eu cefnogi rhwng 2000-2006, i ffordd fwy strategol, gyda tua 300 o brosiectau yn yr arfaeth ar gyfer cyfnod cyllidebu 2014-2020. Wrth ganolbwyntio ar lawer llai o brosiectau a'r rheiny'n fwy sylweddol ac ag allbynnau a chanlyniadau cliriach, mae modd sicrhau canlyniadau mwy strategol a gwell. Nod rhaglenni bellach yw integreiddio buddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel eu bod yn ategu'i gilydd a dyma'r model cywir ar gyfer y dyfodol, yn ein barn ni. Ar ben hynny, dylai codi cyfyngiadau presennol yr UE alluogi partneriaid i integreiddio polisïau perthnasol a thrawsbynciol yn agosach er mwyn sicrhau hyd yn oed mwy o fuddiant strategol.

Nod y dull presennol yw datblygu buddsoddiadau rhanbarthol a lleol pwrpasol ar gefn cynnig cenedlaethol craidd o gymorth i unigolion a busnesau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys camau ymyrryd mawr megis prentisiaethau neu fynediad at gyllid i fusnesau drwy Fanc Datblygu Cymru. Mae Banc Buddsoddi Ewrop hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad economaidd Cymru ac rydym yn parhau i ddadlau y dylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn bartner i'r sefydliad hwn ar ôl Brexit. Nod prosiectau rhanbarthol yw mynd i'r afael â rhwystrau penodol rhag twf neu fanteisio ar gyfleoedd newydd. Er enghraifft, mae buddsoddiadau yn yr A465, yr A40 a'r A55 yn helpu i fynd i'r afael â mannau cyfyng ar rwydweithiau ffyrdd hanfodol o'r Dwyrain i'r Gorllewin, ac mae buddsoddi mewn ynni'r môr yn cefnogi datblygiad y parthau arddangos i helpu i ysgogi'r sector hwn ar Ynys Môn ac yn Sir Benfro.

Mae rhanbarthau economaidd gweithredol ledled Cymru yn darparu ffocws ar hyn o bryd ar gyfer blaenoriaethu llawer o fuddsoddiadau'r UE yng Nghymru, gyda chefnogaeth proses diogelu rhanbarthol ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol. Dylai hyn sicrhau bod buddsoddiadau ledled Cymru yn ymateb i gyfleoedd rhanbarthol a bod cymorth pwrpasol yn ategu hynny. Fodd bynnag, nid oes gennym amheuaeth ei bod yn bosibl gwneud hyn yn fwy effeithiol. Caiff cryfderau a chyfleoedd eu nodi drwy bartneriaethau rhanbarthol, megis Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a thargedir y buddsoddiad i helpu i gyflawni'r cyfleoedd hynny. Mae'r meysydd gweithredol hyn yn cyd-fynd yn agos a dulliau rhanbarthol sy'n codi ar gyfer diwygio llywodraeth leol a datganoli'r polisi datblygu economaidd i'r rhanbarthau.

Caiff buddsoddiadau hefyd eu gwneud ar lefel leol, drwy ddatblygiadau cymunedol. Mae'r dull LEADER hwn o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn fath o ddatblygiad dan arweiniad y gymuned sy'n grymuso cymunedau lleol (drwy Grwpiau Gweithredu Lleol) i ddatblygu strategaethau lleol gan roi'r adnoddau iddynt gyflawni'r buddsoddiadau â blaenoriaeth. Drwy broses o ymgysylltu a rhanddeiliaid, mae'n datblygu capasiti a hyder grwpiau targed, yn meithrin cydweithrediad, yn nodi'r problemau a wynebir a'r cyfleoedd sydd ar gael i ardal gan dreialu atebion posibl.

## Cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol

Mantais bosib o beidio â bod yn aelod o'r UE fydd y cyfle i weithio'n fwy systematig ag ardaloedd rhanbarthol gweithredol sy'n adlewyrchu'r gwirionedd economaidd ym mhob rhan o Gymru, yn hytrach na chael ein cyfyngu gan y ffiniau daearyddol presennol sy'n ymwneud yn

benodol â chyllid. Ni fydd angen i ni bellach wahanu rhannau o orllewin a dwyrain Cymru yn artiffisial, na mynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig, pobl a busnesau yn gwbl ar wahân.

## Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau, y trydydd sector a busnesau ledled Cymru i lunio cynlluniau rhanbarthol newydd fel rhan o ddull gweithredu newydd ar gyfer Cymru gyfan sy'n seiliedig ar strwythurau cynllunio rhanbarthol a phartneriaethau clir.

Byddwn yn cynllunio ar gyfer y tymor hwy, o fewn fframwaith *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, a chytuno ar nodau cyffredin sy'n cyd-fynd â'n ffrydiau cyllido. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar y gymysgedd gywir o fuddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Rhaid i Lywodraeth y DU addasu cyllideb Llywodraeth Cymru ar i fyny'n barhaol hyd at o leiaf lefelau'r cyllid o'r UE i Gymru, heb gyfyngiad, yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm yr UE. Er hyn, nid ydym yn bwriadu mynd ati i gynnal rhaglenni presennol yr UE drwy ddulliau eraill yn unig. Dyma gyfle i feddwl a gweithio mewn ffyrdd gwahanol sy'n cysylltu polisïau ar draws portffolios a sefydliadau. Mae ein polisi adfywio newydd a gwaith Tasglu'r Cymoedd yn cynnig cyfleoedd cynnar inni ddysgu gwersi a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio'n rhanbarthol a chynnal partneriaethau newydd sy'n ymwneud â sawl polisi.

Bydd angen i'r cyllid sydd eisoes ar gael gyd-fynd â dull gweithredu rhanbarthol newydd. Er enghraifft, mae Llywodraeth Leol yng Nghymru'n buddsoddi tua £100 miliwn y flwyddyn mewn datblygu economaidd a chymorth i fusnesau, a £500 miliwn y flwyddyn mewn trafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £1.4 biliwn y flwyddyn i ddatblygu'r economi a'r seilwaith.

Mae'r Bargeinion Dinesig a Thwf hefyd yn gyfleoedd mawr i fuddsoddi ledled Cymru, ynghyd â buddsoddiadau mawr gan y sector preifat megis pwerdy niwclear Wylfa B a'r Morlyn Llanw Bae Abertawe arfaethedig.

# 3. Gweithio mewn Partneriaeth

**Bydd angen cryfhau'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ar gyfer y dull rhanbarthol newydd, gan ganiatáu i'r heriau a'r cyfleoedd penodol yn rhanbarthau Cymru gael eu nodi a'u targedu. Bydd angen atgyfnerthu gwaith partneriaeth ac ymgysylltu lleol drwy, er enghraifft, gydnabod tystiolaeth ryngwladol ar bwysigrwydd llywodraethu effeithiol a chapasiti ar gyfer ysgogi datblygu economaidd rhanbarthol yn llwyddiannus.**

Ar lefel genedlaethol, rydym wedi sefydlu trefn gadarn i oruchwylio cronfeydd yr UE drwy'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae'n uno partneriaid o lywodraeth leol, busnesau a mentrau, y trydydd sector, addysg, amgylchedd, ffermio a chyrff materion gwledig gyda Llywodraeth Cymru i fonitro darpariaeth effeithiol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), gan ystyried sut y mae'r cronfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r effaith fwyaf bosib. Gan edrych y tu hwnt i gronfeydd yr UE wrth i ni ymadael, rhaid i ni adeiladu ar y trefniadau partneriaethau cydweithredol hyn sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar lefel genedlaethol.

Ar lefel ranbarthol, rhaid i'r dull gydnabod bod lleoedd gwahanol yn wynebu heriau a chyfleoedd amrywiol, a bod angen i bob rhanbarth ysgogi ei ddatblygiad ei hun. Yn union fel y mae Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa orau i ddarparu prif fframwaith strategol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru, partneriaid o fewn y rhanbarthau – gan gydweithio â Llywodraeth Cymru – sydd yn y sefyllfa orau i nodi'r heriau a'r cyfleoedd penodol yn eu hardaloedd hwy.

## Partneriaethau a rhwydweithiau rhanbarthol yng Nghymru

Mae ystod o bartneriaethau a rhwydweithiau rhanbarthol presennol sy'n darparu sylfeini cadarn i ddatblygu trefniadau cynllunio a chyflawni gwell ar gyfer buddsoddiadau rhanbarthol. Ond eto, rhaid i'r rhan fwyaf ohonynt weithio'n drawsffiniol rhwng rhanbarthau "Gorllewin Cymru a'r Cymoedd" a "Dwyrain Cymru" dan nawdd yr UE. Y tu allan i fframwaith polisi presennol yr UE, bydd cyfleoedd i'r partneriaethau hyn gael mwy o ran yn y broses cynllunio strategol a chyfrannu at benderfyniadau drwy 'gyd-gynhyrchu'. Mae gweithio'n rhanbarthol ar y cyd â phartneriaid yn rhan hanfodol o wasanaethau cyhoeddus Cymru. Byddwn yn parhau i gryfhau ein partneriaethau er mwyn ateb yr heriau a wynebir wrth ymadael â'r UE gan ysgogi cydweithio, yn enwedig o ran datblygu economaidd a sgiliau.

Islaw'r lefel ranbarthol mae nifer o bartneriaethau gofodol ategol ar lefel is-ranbarthol sy'n adlewyrchu'r cyfleoedd gwahanol yn y rhanbarthau hynny ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Tasglu'r Cymoedd, Ardaloedd Menter, Grwpiau Gweithredu Lleol yn ogystal â chyfleoedd penodol i fuddsoddi megis Rhaglen Ynni Ynys Môn neu Ynni Môr Sir Benfro. Yr hyn sy'n nodweddiadol o'r holl bartneriaethau hyn yw eu haelodaeth eang ar draws sectorau gwahanol.

## Tystiolaeth ryngwladol

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llawn i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau'r manteision gorau o raglenni presennol yr UE nes eu cwblhau. Mae'n debygol y bydd hyn (oherwydd strwythur y rhaglenni) yn para am sawl blwyddyn wedi i'r DU ymadael â'r UE, hyd at 2023. Byddwn yn cofio ein degawdau o bartneriaeth datblygu economaidd â'r UE fel cyfnod cadarnhaol o gydweithio a fydd yn gadael etifeddiaeth barhaol.

Rhan bwysig o'r etifeddiaeth honno yw i ni gydnabod y manteision i Gymru o ymdrin â pholisi o fewn fframwaith rhyngwladol. Am y rheswm hwn, rydym wedi dechrau trafod â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar y pwnc a

byddwn yn mynd ati i gydweithio'n rhyngwladol ymhellach yn y dyfodol. Yn wir, mae'n bosibl mai un o ganlyniadau cadarnhaol Brexit yw'r ysgogiad i ehangu ein gorwelion yn Ewrop a thu hwnt.

Mae'r OECD yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio mewn partneriaeth gyda chefnogaeth gweithgareddau datblygu capasiti priodol, er mwyn sicrhau bod datblygu economaidd ar lefel ranbarthol a lleol yn llwyddiant. Bydd hyn yn gofyn inni asesu a datblygu capasiti is-genedlaethol a chryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol. Mae'n gosod llawer o bwyslais ar lywodraethu aml-lefel, a'r ffordd y mae llywodraethau cenedlaethol yn trefnu eu hymyraethau mewn rhannau gwahanol o'r wlad ac ar ba lefel.

Mae'n hanfodol sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol gyfranwyr. Felly, byddwn yn datblygu prif ddull strategol a fydd yn cynnwys nodau cyffredinol a threfniadau monitro a gwerthuso. Y tu hwnt i hyn, byddwn yn ceisio cefnogi'r capasiti i hwyluso'r gwaith o ddatblygu trefniadau cynllunio a chyflawni ar y cyd ar y lefel fwyaf addas – boed hynny ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.

Mae'r OECD hefyd wedi hyrwyddo'r defnydd o grwpiau partneriaeth i ddatblygu fframwaith cynllunio a chyflawni gweithredol ffurfiol, ac mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau. Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol sicrhau proses agored ar gyfer gwneud polisïau a phenderfyniadau. Mae gennym enghreifftiau da o bartneriaethau o'r fath yn cyflawni rhaglenni'r UE a byddwn yn adeiladu ar y profiadau hynny.

# 4. Dyfodol Heb Ffiniau

**Gall ffiniau daearyddol a biwrocratiaeth lesteirio datblygu economaidd effeithiol. Yn y dyfodol, rhaid osgoi unrhyw ffiniau diangen o fewn Cymru. Yn yr un modd, rhaid i ni gael hyblygrwydd i weithio gyda phartneriaid priodol ar y ffin â Lloegr pan fo gwneud hynny'n fanteisiol i economi Cymru. Rhaid i ni hefyd sicrhau nad ydym yn colli'r partneriaethau ardderchog, creadigol a adeiladwyd dros y môr gydag Iwerddon.**

Roedd rhannu Cymru yn rhanbarthau yn ôl dosbarthiad ystadegol yr UE wrth reoli'r ffrydiau cyllid a gwneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd i neilltuo arian yn rhanbarthol ar draws yr UE, ond nid oedd yn cyd-fynd ag anghenion ar lefel leol bob tro. Yn y dyfodol, bydd y cyfyngiad hwn yn cael ei godi ac mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle i feddwl o'r newydd pa egwyddorion ddylai fod yn sylfaen i ddatblygu partneriaethau rhesymol yn rhanbarthol a lleol. Rhaid i hyn gynnwys ystyriaeth o'r cyfraniad y gall ardaloedd gwledig a threfol ei wneud i economïau rhanbarthol, gan adlewyrchu dull gweithredu mwy integredig.

Mae economi Cymru wedi integreiddio'n agos gydag economi'r DU, yn arbennig ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Dylai dull gweithredu rhanbarthol newydd annog mwy o gynllunio a buddsoddi ar draws ffiniau er lles Cymru a'r DU yn gyfan, gan barchu'r cymwyseddau datganoledig yn llawn ar yr un pryd.

Mae rhaglen drawsffiniol Iwerddon-Cymru yr UE werth tua €100 miliwn yn ystod y persbectif ariannol presennol. Mae'n cynrychioli 20 mlynedd o berthynas wedi'i hadeiladu o amgylch datblygu economaidd, storfa o gyfalaf dynol sydd mewn perygl heb fynediad parhaus at y ffrwd gyllido hon. Rydym am weld y rhaglen yn parhau yn y tymor hir ar ôl i ni ymadael â'r UE. Yn ei haraith yn Fflorens, awgrymodd Prif Weinidog y DU y gallai'r DU barhau i gymryd rhan mewn rhai rhaglenni Ewropeaidd sy'n agored i fwy nag aelod-wladwriaethau ar ôl i ni ymadael â'r UE: yn ein barn ni, dylai hon fod yn un o'r rhaglenni hynny.

Mae Cymru'n wlad agored a chroesawgar, ac fe fydd hynny'n parhau. Byddwn am gynnal ac adeiladu ar ein rhwydweithiau rhyngwladol drwy barhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cydweithredol fel Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol, Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a'r rhaglenni fydd yn eu dilyn. Y tu allan i'r UE, rydym am barhau i ddysgu o arfer da yn Ewrop a thu hwnt, ac rydym yn anelu at aros yn rhan o rwydweithiau rhyngwladol am y rheswm hwnnw.

Mae **Datganiad Caerdydd**, a gafodd ei gymeradwyo yng Nghynulliad Cyffredinol Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol, 19-20 Hydref 2017 yn Helsinki, yn nodi safbwyntiau 160 o ranbarthau o 25 o wledydd Ewropeaidd a thu hwnt, gan gynnwys Cymru. (Nid yw'r testun ar gael yn Gymraeg):

"The CPMR:

- Underlines that continued participation of the UK nations and regions in the CPMR post-Brexit is unquestioned and invites nations and regions in the UK that are not currently members to join the CPMR.
- Underlines the importance of maintaining strong relations at sub-Member State level between the UK and the EU27 and the other European Economic Area (EEA) countries after Brexit.
- Calls for future frameworks for co-operation between the UK and the EU to provide scope for direct engagement between the UK nations and regions with EU27 regions, including through the participation of the UKs devolved nations and regions in future EU programmes after Brexit.

- Stresses the importance of maintaining strong cooperation in the Atlantic and North Sea regions (including the Channel), and the participation of the UK nations and regions in future EU Territorial Cooperation Programmes and in any future Macro-Regions in these areas.
- Underlines our strong interest in seeing continued participation of the UK nations and regions in other EU programmes after Brexit, including the successor programmes to Horizon 2020, Erasmus+ and Creative Europe.
- Similarly calls for future cooperation arrangements with the UK to enable good relations to be maintained with Norway and the other non-EU27 EEA countries.
- Advocates, in the case of no agreement being reached on a post-Brexit co-operation framework with the EU27, that the European Commission open the possibility for the UK Devolved Administrations to participate directly in future EU programmes and co-operation."

## Cysoni

Wrth i'r DU ymadael â'r UE, bydd yn hanfodol sicrhau gwell cydlyniant a chysondeb yn y ffrydiau cyllido a buddsoddi ar gyfer datblygu economaidd ar bob lefel – cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rhaid gwneud mwy na dim ond dyblygu rhaglenni'r UE yr UE yng Nghymru. Rhaid i Brexit fod yn ffordd o uno ystod ehangach o fuddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Gallai rhaglenni adfywio Cymru, er enghraifft, fod yn agosach at ymyraethau datblygu economaidd ehangach yn y dyfodol, gan gynnwys buddsoddiad wedi'i dargedu mewn sgiliau a datblygu busnes. Gall ein cynlluniau datblygu economaidd rhanbarthol hefyd adlewyrchu gwahanol ddaearyddiaeth Cymru'n well, a chymryd mwy o ystyriaeth o'r cyfleoedd ar gyfer twf mewn ardaloedd gwledig a'r cysylltiad rhwng ardaloedd trefol a gwledig i ysgogi twf cynaliadwy a chynhwysol.

Ni all – ac ni ddylai – Cymru weithredu'n ynysig ar wahân i weddill y DU, yn arbennig y rhannau o Loegr sydd ar hyd y ffin. Ceir cysylltiadau economaidd agos, er enghraifft, rhwng Glannau Dyfrdwy a Phwerdy Gogledd Lloegr, a rhwng y Canolbarth a marchnadoedd Canolbarth Lloegr. Mae Strategaeth Glannau Hafren yn cysylltu coridor Abertawe – Caerdydd – Casnewydd gyda Bryste a Chaerwysg. Rhaid i ni weithio'n ymarferol gyda'r rhanbarthau cyfagos yn Lloegr er lles pawb.

Nid oes modd i'r heriau tymor hir sy'n wynebu economi Cymru gael eu datrys drwy gynnig arian yn lle buddsoddiad yr UE yn unig, na hyd yn oed drwy gydlynu buddsoddiadau'n well gyda'n cyllidebau. Gall polisi macro-economaidd a phenderfyniadau gwario Llywodraeth y DU gael yr effaith unigol fwyaf pwerus ar ein heconomi. Mae cyllid yr UE wedi helpu i liniaru rhai o effeithiau gwaethaf cyni Llywodraeth y DU, ond rhaid i benderfyniadau buddsoddi ar draws y DU fod yn fwy sensitif i fuddiannau economaidd holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae toriadau gwariant cyhoeddus yn y DU yn cael effaith anghymesur mewn rhannau o Gymru lle mae'r boblogaeth hŷn, fwy gwasgaredig yn gofyn am fuddsoddiad cyhoeddus uwch o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Rhaid i fuddsoddiadau sylweddol y DU fod yn sensitif yn rhanbarthol. Cost cynnal Gemau Olympaidd y DU yn 2012, er enghraifft,

oedd £8.9 biliwn[13] ac roedd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth manteisiol i'r DU yn gyfan. Roedd y buddsoddiad, fodd bynnag, wedi'i ganolbwyntio'n bennaf ar adfywio a gwella cysylltedd a chyfleusterau o fewn Llundain. O'i roi mewn cyd-destun, gallai cost llwyfannu'r Gemau Olympaidd fod wedi ariannu buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru, ar lefelau ariannu presennol yr UE, am dros 20 mlynedd. Mae penderfyniadau diweddar Llywodraeth y DU ar seilwaith rheilffyrdd yn awgrymu ei bod yn parhau i ganolbwyntio'n anghymesur ar anghenion Llundain a De-ddwyrain Lloegr ar draul Cymru a rhannau mwyaf ymylol y DU.

Mae hyn yn tanlinellu'r achos dros gydlynu polisïau Llywodraeth Cymru a'r DU yn fwy effeithiol, ar sail sofraniaeth gyfun a chydnabyddiaeth glir o ble mae'r cyfrifoldeb dros wahanol ymyraethau yn gorffwys. Rhaid i'r cydweithio yn y dyfodol fod yn seiliedig ar bartneriaeth wirioneddol. Mae angen i fuddsoddiadau Llywodraeth y DU gydweithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gweithio gyda, yn hytrach nag yn groes i'r graen o safbwynt polisi economaidd Cymru. Fel y dywedwyd yn ein papur polisi *Brexit a Datganoli* (Mehefin 2017), bydd hyn yn gofyn am ffyrdd newydd o lywodraethu ar ôl i ni ymadael â'r UE. Rydym yn argymell y dylai Cyngor Gweinidogion Economaidd y pedair gwlad gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn cydlynu polisi ar draws holl wledydd y DU.

## Fframwaith Polisi a Deddfwriaethol Cymru

Mae'n Nodau Llesiant a'n Hegwyddorion yn rhoi fframwaith clir ar gyfer penderfyniadau'r Llywodraeth, ac yn sail i'n gwasanaethau cyhoeddus. Cymru yw un o'r gweinyddiaethau datganoledig cyntaf yn y byd i osod system cyllidebu carbon, a defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem mewn ffordd well i gydnabod swyddogaeth hanfodol adnoddau naturiol Cymru ar gyfer cefnogi ein heconomi a'n cymunedau.

Elfen ganolog o'r dull gweithredu hwn yw'r gydnabyddiaeth bod unigolion yn wynebu gwahanol heriau neu a gwahanol anghenion ar adegau gwahanol o'u bywydau, er enghraifft wrth drosglwyddo o fyd addysg i fyd gwaith, neu wrth golli swydd neu uwchsgilio yn y gweithle. Mae'r un peth yn wir pan fo busnes yn cyrraedd croesffordd lle byddai modd cymryd trywydd newydd, fel allforio neu gyflogi staff am y tro cyntaf.

Yn yr un modd mae lleoedd, fel unigolion a busnesau, wedi datblygu i wahanol lefelau, neu a gwahanol anghenion a chyfleoedd. Gall ardaloedd gwledig a threfol, er enghraifft, wynebu gwahanol heriau ond maent yn gysylltiedig a'i gilydd. Felly mae'n hanfodol i'r dull gweithredu fod yn addas ar gyfer y lleoliad: gan gydnabod y gwahaniaethau hyn, gwneud cysylltiadau, ac adeiladu ar asedau ac arbenigedd yr ardal.

## Fframweithiau'r DU

Mae'n trefniadau llywodraethu o fewn y DU ar ôl Brexit yn hanfodol ar gyfer polisi rhanbarthol effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r polisi ar gystadleuaeth yn cael ei roi ar waith o fewn fframwaith ar draws yr UE o gymorth rhanbarthol a sectoraidd. O fewn hyn, mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn elwa o gael ei dynodi'n 'Ardal a Gynorthwyir' yn sgil yr heriau economaidd y mae'n eu hwynebu. Byddai unrhyw ymgais i israddio gallu Cymru i ddarparu cymorth gwladwriaethol i fusnesau yn yr ardaloedd a gynorthwyir ar hyn o bryd, neu gystadleuaeth niweidiol rhwng rhanbarthau, yn andwyol iawn.

Er mwyn osgoi problemau o'r fath, a helpu i sicrhau datblygu economaidd cytbwys o fewn y DU, bydd yn hanfodol i'r pedair Llywodraeth genedlaethol gydweithio i gysoni ysgogiadau economaidd priodol fel polisi ar fasnach, polisi ar gystadleuaeth,

13 DCMS (2012). Ar gael yma: www.gov.uk/government/news/london-2012-forecast-to-come-in-nearly-400-million-under-budget.

polisi ar y farchnad lafur, seilwaith rheilffyrdd, ynni ac eraill. Dylid cyflawni hyn heb danseilio polisi a gweithredoedd datganoledig na'r gallu lleol ar gyfer polisïau a gweithredoedd penodol i ardal. Byddai methiant i sicrhau cysondeb ar faterion sy'n ymestyn ar draws y DU yn arwain at berygl o lurgunio neu ymylu cymunedau o fewn marchnadoedd y DU, neu 'ras i'r gwaelod' ar sail cystadleuaeth rhwng mentrau heb eu rheoleiddio.

Bydd y cyfnod pontio wrth ymadael â'r UE yn amlwg yn gofyn am ddulliau gweithredu newydd ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd, sydd â goblygiadau sylweddol i'n heconomi a'n cymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi hen ddechrau cynnal deialog gyda'r sectorau hyn, gan gydweithio i ddatblygu safbwynt cyffredin ar y dull gweithredu gorau a'r heriau o'n blaen. Gallai perthynas fasnach newydd a ffyrdd o edrych ar fudo hefyd newid ffurf ein heconomi'n sylweddol, ac rydym wedi cyhoeddi'n sylwadau ynghylch mudo yn ein dogfen *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl* (Medi 2017).

Rydym yn dweud yn glir ein bod yn gwrthod yn llwyr unrhyw awgrym o ganoli polisi datblygu economaidd rhanbarthol y DU, gan gynnwys creu 'Cronfa Ffyniant y DU' dan reolaeth Whitehall. Byddai unrhyw ddull gweithredu o'r fath yn niweidiol yn faterol i gymunedau, ac ni fyddai'n adlewyrchiad teg o fwriad pleidleiswyr yn refferendwm yr UE.

## Pleidleisiodd mwyafrif pobl Cymru dros ymadael â'r UE. Fodd bynnag, ni wnaethant bleidleisio dros fod yn dlotach na phleidleisio dros danseilio neu gyfyngu ar ddatganoli yng Nghymru.

Bydd unrhyw gynnig sy'n arwain at weld Cymru ar ei cholled yn ariannol, neu â llai o bwerau, yn annerbyniol.

Ar ben hynny, nid oes gan Lywodraeth y DU systemau yn eu lle ar lawr gwlad i ddyfeisio a darparu rhaglenni rhanbarthol o'r fath yn effeithiol yng Nghymru. Byddai'n anghyfrifol i Lywodraeth y DU geisio osgoi partneriaethau a strwythurau sefydledig yr ydym wedi'u hadeiladu dros 20 mlynedd, ac fe fyddai unrhyw ymgais i wneud hynny'n arwain at ddryswch, diffyg eglurder ac aneffeithiolrwydd. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n cytuno i weinyddu cyllid yn unig tra bod penderfyniadau hanfodol bwysig yn cael eu cymryd yn Whitehall. Byddai gwneud hynny'n bradychu egwyddor datganoli a disgwyliadau rhesymol pobl a chymunedau ar draws Cymru.

### Cydweithredu Rhyngwladol

Elfen bwysig o'n partneriaeth dros ddegawdau gyda'r UE yw'r cyfle i gydweithio gyda chydweithwyr o wledydd eraill. Rydym wedi dysgu drwy rannu arfer da gyda phartneriaid Ewropeaidd, ac mae Cymru ei hun wedi cael cydnabyddiaeth am arddangos arfer da rhyngwladol mewn nifer o feysydd wrth ddarparu rhaglenni'r UE. Mae partneriaid ar draws Cymru wedi manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn rhwydweithiau rhyngwladol a chyrraedd at gyllid cydweithredol yr UE ar gyfer prosiectau rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae Cymru'n cyfrannu at nifer o raglenni'r UE sy'n cael eu rheoli'n ganolog, ac wedi elwa'n sylweddol o hynny, gan ein cyflwyno i syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio yn ogystal â rhannu ein profiadau yn rhyngwladol.

Mae myfyrwyr Cymru wedi manteisio ar y cyfle i brofi addysg yn Ewrop drwy raglenni'r UE fel ERASMUS+ ac Europass. Yn ystod 2014 yn unig, roedd dros 2,000 o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol, a rhwng 2014-15 llwyddodd sefydliadau o Gymru i sicrhau dros £10 miliwn o gyllid ar draws 86 o brosiectau.

## Mae ymchwilwyr Cymru wedi cydweithio'n llwyddiannus mewn rhaglenni ymchwil ac arloesi Ewropeaidd, gan gynnwys Horizon 2020. Drwy'r rhaglen hon, mae Cymru wedi denu dros €83 miliwn o gyllid Horizon 2020, gyda 191 cyfranogiad gan fusnesau a sefydliadau Addysg Uwch Cymru mewn 174 o brosiectau.

Mae cyllid Ewropeaidd ychwanegol drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn, gan helpu i sicrhau tegwch o fewn y DU drwy adeiladu'r gallu angenrheidiol i Gymru gystadlu am gyllid fel Horizon 2020 a chyllid Cyngor Ymchwil y DU, a gwneud Cymru'n lle mwy deniadol fel partner i ranbarthau eraill a chyrchfan ar gyfer buddsoddi. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth roi sylw i'r llif anghymesur o gyllid ymchwil cystadleuol yn y DU i sefydliadau yn ne Lloegr.[14] Gall rhaglenni fel Horizon 2020 hefyd ddarparu cyfleoedd i fusnesau gydweithio gyda'i gilydd a gweithio tuag at nodau cyffredin. Mae'r cydweithio hwn yn hanfodol os yw busnesau i barhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang, ac mae cadw mynediad at y ffrydiau cyllido hyn yn rhan hanfodol o waith Llywodraeth Cymru ar Brexit.

Mae gan Gymru berthynas agos gyda Gweriniaeth Iwerddon, wedi'i seilio ar fasnach, gwerthoedd cyffredin, diwylliant a chymdogaeth. Mae buddsoddiad trawsffiniol yn digwydd drwy raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, sy'n denu tua £7.3m o gyllid y flwyddyn i Gymru ac yn creu cyfleoedd i bartneriaid ddatblygu systemau arloesol ar y cyd i ateb heriau cyffredin. Rydym yn galw ar i'r cyllid barhau i gefnogi'r cydweithio hwn pan fyddwn yn ymadael â'r UE, yn unol â chynsail presennol.[15]

Mae'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn ymestyn y tu hwnt i'n cysylltiadau gydag Iwerddon ac yn cynnig cyfle i gydweithio gydag Aelod Wladwriaethau ar draws yr UE a thu hwnt.

Mae'n bosib parhau i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn fel 'trydedd wlad' ac rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ein modelau cydweithredu a datblygu arfer da gyda'n partneriaid a'n cymdogion Ewropeaidd yn y ffordd hon ar ôl Brexit.

Bydd rhwydweithiau'n parhau i fod yn elfen bwysig o gydweithio rhyngwladol. Mae sefydliadau Cymru'n cymryd rhan weithgar, er enghraifft, yn y fenter Vanguard ar gyfer gweithgynhyrchu uwch a diwydiannau seiliedig ar bio-ddeunyddiau, a Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop (ERRIN). Mae rhwydweithiau o'r fath wedi hwyluso cydweithio agos ac adeiladol gyda nifer o ranbarthau Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn aelod gweithredol o Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol, sefydliad rhanbarthol sylweddol yn Ewrop, ac rydym ar hyn o bryd yn cydweithio ar oblygiadau Brexit ar gyfer rhanbarthau Ewrop. Byddwn yn parhau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau pwysig sydd eisoes yn bodoli ac yn ceisio cynghreirio eto yn y dyfodol, o fewn a thu allan i'r UE.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2017, roedd 59.8 y cant o'r nwyddau a gafodd eu hallforio'n uniongyrchol o Gymru wedi mynd i leoliadau yn yr UE.[16]

14 Er enghraifft, derbyniodd Llundain a De-ddwyrain Lloegr 44% o gyllid Cyngor Ymchwil y DU yn 2015/16, o gymharu â dim ond 2% i Gymru. Gweler: www.rcuk.ac.uk/about/aboutrcs/research-funding-across-the-uk/.

15 Er enghraifft, mae Gwlad yr Iâ, Norwy a'r Swistir yn cymryd rhan fel 'trydydd gwledydd' mewn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

16 Ystadegau masnach rhanbarthol, CThEM 2016. Data ar gael – www.gov.wales/statistics-and-research/welsh-exports/?lang=cy.

Ein prif flaenoriaeth yw cadw mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl ac osgoi unrhyw rwystrau rhag masnach gyda'r UE ar ôl Brexit. Fodd bynnag, o'r tu allan i'r UE bydd angen i ni weithio'n galed i dynnu sylw marchnadoedd Ewrop at Gymru. Rydym yn bwriadu cadw swyddfa ym Mrwsel ar ôl Brexit, ond hefyd yn bwriadu agor swyddfeydd newydd yn Qatar, Canada, Ffrainc a'r Almaen i helpu i gadw a datblygu ein cydweithrediad economaidd. Byddwn hefyd yn edrych ar gyfleoedd eraill yn Ewrop a thu hwnt. Mae Cytundeb y Gyllideb â Phlaid Cymru yn cynnwys £5m i baratoi ar gyfer Brexit, gan gynnwys cymorth i fusnesau, dros ddwy flynedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn dweud yn glir nad yw ymadael â'r UE yn golygu bod Cymru'n "gadael Ewrop". Mae Cymru'n rhan o Ewrop, ac ni fydd hynny'n newid o gwbl. Mater o fasnach, busnes a daearyddiaeth yw hyn, yn sicr, ond mae hefyd yn fater o werthoedd, diwylliant a gwareiddiad. Roedd aelodaeth y DU o'r UE yn ei gwneud yn hawdd i ni fynegi ein hunaniaeth Ewropeaidd a'n hamrywiol fuddiannau cyffredin. O'r tu allan i'r UE bydd yn rhaid i ni weithio llawer caletach ac yn fwy rhagweithiol i gadw'r dimensiwn Ewropeaidd hwn i'n gweithgarwch, ond rydym yn benderfynol o wneud hynny. Yn rhan o'r UE neu beidio, bydd Cymru'n parhau i fod yn genedl Ewropeaidd.

Mae'n gwaith ar y cyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn gynhyrchiol iawn. Os byddwn yn llwyddo yn ein huchelgais o gadw mynediad llawn at y rhaglenni Ewropeaidd y cyfeirir atynt uchod – Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Horizon 2020, ERASMUS+ ac eraill – a sefydliadau fel Banc Buddsoddi Ewrop, bydd y cydweithredu hwn yn parhau. Ar ben hynny, mae gennym gyfle i gysylltu ag arbenigedd polisi mewn mannau eraill. Ein nod yw gweld Cymru'n mesur ei hun yn erbyn safonau uchel, ac fe fyddwn yn chwilio am bartneriaid a meincnodau o amrywiol ffynonellau rhyngwladol er mwyn helpu i lunio'n dyheadau.

## 5. Buddsoddi yn ein Dyfodol

**Rydym yn gwbl ymroddedig o hyd i gyflawni ein rhaglenni presennol dan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE hyd at ddiwedd cyfnod y gyllideb Ewropeaidd hon, er lles cymunedau, pobl a busnesau ar draws Cymru. Yn ymarferol, gallai hyn olygu y byddwn yn parhau i weithio yn ein partneriaeth bresennol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd tan 2023. Drwy gydol y cyfnod hwn byddwn yn gweithio gyda'r un diwydrwydd, dyletswydd a chyfrifoldeb ag yr ydym wedi'u dangos erioed.**

Yn ein deialog gyda Llywodraeth y DU, rydym wedi dweud yn glir bod rhaid i Drysorlys y DU wneud yn iawn am yr holl gyllid rheolaidd a oedd wedi'i neilltuo i Gymru gan yr UE ar gyfer pob rhaglen. Mewn termau technegol, mae hyn yn golygu bod rhaid cynyddu gwaelodlin Grant Bloc Llywodraeth Cymru tua £680 miliwn y flwyddyn (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) ar ôl Brexit.

---

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r addewidion ariannol a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm yr UE gael eu cadw, ac fe fydd pobl Cymru'n mynnu hynny.

Rydym yn bwriadu adeiladu ar rai elfennau allweddol o'n dull gweithredu presennol i reoli cyllid yr UE yng Nghymru. Rydym yn gweld gwerth rhaglenni aml-flwyddyn er mwyn cynnig gweledigaeth ac eglurder tymor hir i fuddsoddwyr. Rydym yn gweld yr angen am feini prawf a phrosesau clir a thryloyw ar gyfer asesu syniadau am brosiectau, sy'n sicrhau bod pob ymyrraeth arfaethedig yn cael ei phrofi'n drylwyr, ynghyd â systemau monitro a gwerthuso rheolaidd. Drwy gydol y ddogfen hon, rydym wedi cydnabod manteision partneriaeth gref o fewn Cymru, ac rydym yn bwriadu cryfhau cynlluniau rhanbarthol a'r gwaith o'u cyflawni, gan gynnal goruchwyliaeth genedlaethol.

Gwers bwysig a ddysgwyd drwy flynyddoedd o brofiad yn y maes hwn yw'r angen i gyflawni'n strategol, gan wneud nodau cenedlaethol yn gyson â'r hyn sy'n cael ei gyflawni'n rhanbarthol ac yn lleol o amgylch pobl a lleoedd.

Mae cynlluniau neu raglenni cynhwysfawr sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi dros y tymor canolig i'r tymor hir yn rhoi hyder i'r buddsoddwr ac yn annog gwahanol sefydliadau i fuddsoddi yn yr un weledigaeth. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd hyn yn caniatáu i ni gryfhau a chysoni ein gallu i ddarparu'r rhaglenni.

Mae system gref i fonitro a gwerthuso yn hanfodol. Rhaid i hyn gynnwys archwaeth briodol am risg. Wrth fesur llwyddiant, rhaid i ni gynnwys y canlyniadau cywir, gan gynnwys anghydraddoldeb, llesiant, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol – yn ogystal â mesurau economaidd mwy confensiynol.

Bydd cyfres syml, glir o reolau yn rhoi eglurder i'r holl bartneriaid ynghylch penderfyniadau – gan greu tegwch a thrin pawb yn yr un modd. Ar yr un pryd, ni ddylid colli'r cyfle i symleiddio pan fo lle i wneud hynny. Gormod o fiwrocratiaeth oedd un o'r cwynion mwyaf cyffredin am raglenni'r UE, ac nid ydym yn ceisio dyblygu rhaglenni'r UE yng Nghymru ar ôl Brexit. Yn hytrach, rydym am gymryd yr elfennau gorau a etifeddwyd o'r UE ac adeiladu dyfodol newydd ar gyfer y tymor hir. Yn yr un modd, mae rheoliadau da yn bodoli am reswm – diogelu gweithwyr a defnyddwyr er enghraifft – ac ni ddylid ystyried am eiliad gwanhau safonau sydd wedi'u llunio i ddiogelu pobl a chymunedau.

Mae llywodraethu da yn hanfodol, ac rydym am barhau gyda'n deialog nawr am yr hyn fydd yn gweithio orau. Yn benodol, rydym am wybod beth yw barn ein partneriaid ar draws Cymru. Mae atebolrwydd o'r safon uchaf yn bwysig i Lywodraeth Cymru, ac fe fyddwn yn cymryd canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac eraill i ystyriaeth.

Gallwn eisoes fod yn glir am rai egwyddorion allweddol. Dylai llywodraethiant adlewyrchu ffiniau economaidd defnyddiol a pheidio gosod rhai artiffisial neu letchwith. Mae cyfle sylweddol i gysoni gwahanol ffrydiau polisi mewn ffordd ffres, ac mae'n rhaid i ni fanteisio ar hyn yn ein trefniadau. Partneriaeth yw'r elfen bwysicaf, gyda llywodraeth leol, busnesau, undebau llafur, prifysgolion a cholegau, cymunedau gwledig a threfol a'r trydydd sector oll yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio polisi buddsoddi rhanbarthol Cymru ar gyfer y dyfodol. Llywodraeth Cymru (drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Is-adran Datblygu Gwledig) sydd wedi darparu rhaglenni'r UE yn bennaf, ac mae'n hanfodol i ni fanteisio ar y profiad a gafwyd mewn cyd-destun newydd, heb barhau â'r strwythurau sefydledig er eu lles eu hunain.

**Mae cyfleoedd i symud mwy o gyfrifoldeb dros gynllunio a phenderfyniadau yn agosach at y dinasyddion, a bydd hyn yn gofyn am eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau perthnasol.**

Fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i gryfhau dulliau gweithredu rhanbarthol. Rhaid i ni aildrefnu adnoddau yn unol â hynny, yn y man.

Bydd cyfle sylweddol i'r model newydd gyflwyno cryn dipyn yn fwy o fuddsoddiad na'r hyn y gellid ei gyflawni drwy raglenni'r UE yn unig. Llwyddodd rhaglenni'r UE i ddenu buddsoddiad ychwanegol o'r sector preifat, sector cyhoeddus a thrydydd sector – gan gynyddu gwerth ac effaith y buddsoddiadau. Eto, gallwn wneud mwy. Yn ei dro, gall yr ymrwymiad cyhoeddus mwy hwn i'n rhanbarthau ddenu mwy fyth o fuddsoddiad preifat ac o fannau eraill, gan gynnwys modelau cyllido arloesol megis benthyciadau, gwarant a buddsoddiadau ecwiti.

Yn ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* rydym yn tynnu sylw at swyddogaeth amlwg a manteisiol Banc Buddsoddi Ewrop, ac rydym o'r farn nad yw hyn wedi cael sylw priodol yn nhrafodaeth y DU ar Brexit. Rydym wedi galw'n glir iawn ar y DU i ail-negodi i aros yn bartner Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit. Nid oes unrhyw un o sefydliadau'r DU yn cyflawni'r un cylch gorchwyl, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i sicrhau perthynas hirdymor gyda Banc Buddsoddi Ewrop.

Mae'r OECD yn nodi bod cymysgedd o ddulliau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol – pob un yn gweithio tuag at yr un amcanion – yn gallu bod yn effeithiol iawn. Er enghraifft, yn Norwy mae parthau datblygu neu barthau gweithredu yn helpu i dargedu cyllid i ardaloedd daearyddol penodol gyda'r nod o wneud ardaloedd difreintiedig yn fannau deniadol i fyw a gweithio ynddynt, gan sicrhau nad oes unman yn cael ei adael ar ôl. Mae'r OECD yn cyfeirio'n aml at bwysigrwydd llywodraethiant effeithiol ar sawl lefel. Rhaid i ni gynllunio'n drefnus i ddatblygu a chynnull strwythurau wedi'u hadeiladu o amgylch gwahanol leisiau mewn gwahanol rannau o Gymru.

### Integreiddio buddsoddiadau

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu ar yr integreiddio rhwng gwahanol fuddsoddiadau sydd wedi dod yn gynyddol ganolog i'n rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Yn ogystal â chael gwahanol raglenni'r UE i gydweithio'n fwy effeithiol, mae hyn hefyd wedi golygu eu hintegreiddio'n well gyda buddsoddiadau perthnasol ar draws y sector cyhoeddus (gan gynnwys addysg uwch ac addysg bellach), y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae pob prosiect sydd wedi'i ariannu gan yr UE wedi ymrwymo i gydweithio'n agos gydag eraill, ac mae rhwydweithiau wedi'u sefydlu i sicrhau croesgyfeirio priodol, gweithgarwch hyrwyddo

ar y cyd a dulliau buddsoddi ar y cyd. Er enghraifft mae ymyraethau cymorth i fusnesau wedi'u huno dan faner 'Busnes Cymru' sydd bellach yn darparu: cymorth entrepreneuriaeth; twf busnesau; cymorth i arloesi; mynediad at gyllid; cymorth mentrau cymdeithasol; a chefnogaeth benodol i ffermwyr drwy Cyswllt Ffermio.

Mae cymorth i helpu unigolion i gael swyddi bellach yn edrych ar eu bywydau cyfan, gan gydnabod bod y rhai pellaf o'r farchnad lafur yn aml yn wynebu nifer o rwystrau cymhleth, a'r daith tuag at gyflogaeth weithiau'n un hir. Caiff ymyraethau eu llunio i arwain yr unigolyn drwy wahanol ffynonellau o gymorth domestig a chymorth yr UE sy'n ategu ei gilydd ac yn gorgyffwrdd, nes iddo gael gwaith.

Mae cyllid yr UE hefyd wedi'n helpu ni i gyflymu ac ymestyn rhaglenni buddsoddi blaengar fel Prentisiaethau neu Cyflymu Cymru – gan helpu i leihau diweithdra ymysg pobl ifanc yn gynt a chyflwyno band eang yn gynt ar draws Cymru, er gwaethaf heriau'r prinder sgiliau a'r topograffi.

Gwella'n seilwaith trafnidiaeth yw un o'r blaenoriaethau allweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac fe fydd hyn yn hanfodol ar gyfer parhau i fod yn gystadleuol wrth i ni ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n darparu ar gyfer cymunedau ledled Cymru. Caiff buddsoddiad domestig ac o'r UE ei gyfeirio tuag at welliannau sylweddol i'r M4, yr A55, yr A40 a'r A494, darparu Metro De Cymru, datblygu Metro Gogledd Cymru, masnachfraint rheilffyrdd newydd, cronfa datblygu porthladdoedd, datblygu trydedd bont dros y Fenai a gwasanaethau bws gwell, cynaliadwy.

## Denu cyllid ychwanegol

Er y bydd cyfleoedd i lunio trefniadau cyllido newydd, un o brif fanteision cyllid yr UE oedd y gallu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys y trydydd sector.

Rhaid i gyllid yr UE gael ei fuddsoddi wrth ochr cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector preifat, y trydydd sector ac eraill. Mae'r egwyddor hon o gyd-fuddsoddi yn cynyddu'r tebygrwydd y bydd buddsoddiadau'n llwyddiannus, gan fod nifer o wahanol gyfranogwyr â budd ariannol yn llwyddiant y prosiect. Mae hefyd yn annog y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gysoni buddsoddiadau o amgylch nodau cyffredin.

Defnyddir mwy a mwy o fodelau cyllid arloesol, fel benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti a Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd Llywodraeth Cymru fel ffyrdd o ailgylchu buddsoddiad i'w ailfuddsoddi. Gall y rhain gynnig ffyrdd newydd o sicrhau bod cyllid prin yn ymestyn ymhellach, ond nid ydynt yn addas ym mhob ardal nac ar gyfer pob math o fuddsoddiad.

Mae fframwaith cyllido newydd Llywodraeth Cymru yn gwella'n gallu i ddefnyddio pwerau trethu a benthyg i godi cyllid ychwanegol. Awgryma'r OECD y dylai'r fframwaith cyllidol, wedi'i addasu ar gyfer anghenion ac amcanion datblygu economaidd rhanbarthol, ymdrechu i sicrhau ansawdd a chysondeb mewn systemau rheoleiddiol ar draws gwahanol lefelau llywodraeth. Mae cynlluniau strategol, megis rhaglenni, yn darparu sicrwydd a chysondeb i bawb, ac mae amserlenni tymor canolig i'r tymor hir yn darparu hyder i fuddsoddwyr o ran busnesau a phartneriaid tu hwnt i'r cyfnod uniongyrchol.

Mae'r OECD hefyd yn argymell y dylai'r llywodraethau gryfhau gallu a chyrhaeddiad datblygu economaidd drwy ysgogi cyfranogwyr preifat a chyllido sefydliadau, lle mae'n bosib gwneud hynny.[17] Mae cydgyllido gyda phartneriaid allanol wedi bod yn ffordd ddefnyddiol ers tro o warantu gallu ariannol a

17 OECD (2014), Recommendation of the OECD Council on Effective Public Investment Across Levels of Government, www.oecd.org/gov/regional-policy/recommendation-effective-public-investment-across-levels-of-government.htm.

chynaliadwyedd, a dylai hyn barhau fel elfen ganolog o ddatblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol ar draws Cymru. Amrywiodd hyn o fuddsoddi mewn seilwaith strategol fel Campws Arloesi Bae Abertawe, i wella mynediad busnesau at gyllid drwy Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru, a darparu cyngor arbenigol ar ddatblygu Metro De Cymru.

## Gwneud pethau'n wahanol

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi dechrau newydd yn y broses o drafod ac ymgynghori ar ddull gweithredu posib ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru tu hwnt i 2020. Ceir cyfleoedd sylweddol i symleiddio rheolau a chymhlethdod gweinyddol, yn arbennig ceisio gweithredu mewn ffordd fwy cymesur a mentrus i annog arloesi a mwy o fuddsoddiad sector preifat, a medru goddef methiant pan fo dulliau gweithredu cwbl newydd yn cael eu profi. Ar yr un pryd mae angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal manteision fframwaith o reolau clir, fel y sylw i ganlyniadau dros gyfnodau ariannu diweddar yr UE, a lledaenu'r manteision hynny ar draws popeth rydyn ni'n ei wneud, nid drwy un ffrwd gyllido yn unig.

Mae swyddogaeth glir i Lywodraeth Cymru yn y gwaith o osod fframwaith strategol. Bydd hyn yn cyflwyno blaenoriaethau, gosod system o reolau syml, helpu i adeiladu gallu yn ein rhanbarthau i gynllunio a buddsoddi ar lefel ranbarthol, a sefydlu systemau monitro a gwerthuso cryfach.

## 6. Ein Dull Gweithredu

**Mae'r ddogfen hon yn pwysleisio bod Cymru angen parhau i dderbyn buddsoddiad a chyllid rhanbarthol, yn lle'r cyllid oddi wrth yr UE. Rhaid i Drysorlys y DU ychwanegu hwn yn barhaol i waelodlin Grant Bloc Llywodraeth Cymru. Yn dilyn yr holl flynyddoedd o bartneriaeth gyda'r UE bydd gennym etifeddiaeth i adeiladu arni, ond mae'r gwaith yn bell o fod wedi'i gwblhau. Rydym am weld mwy na newid tebyg am debyg. Rydyn ni am fod yn fwy integredig ac uchelgeisiol.**

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o gyllid yr UE yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae cyllid datblygu economaidd rhanbarthol yr UE wedi helpu i newid diwylliant buddsoddi a'r gallu i gyflawni rhaglenni buddsoddi ar draws Cymru, gan ganolbwyntio mwy ar dystiolaeth, monitro a gwerthuso effaith yn ofalus i helpu gyda buddsoddiadau'r dyfodol. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn elfen ganolog o nifer o raglenni dilynol yr UE, ac mae'r dull hwn o weithio bellach yn gyffredin wrth i ni ddatblygu ein polisïau.

Gyda'n dull neilltuol Cymreig o wneud polisïau a deddfwriaeth, gyda chefnogaeth adnoddau Llywodraeth Cymru, rydym yn y lle gorau i ddatblygu cyfres o gynlluniau buddsoddi gan weithio mewn partneriaeth ar draws Cymru. Byddwn yn darparu ystod lawn o fuddsoddiad cyhoeddus ym mhob rhanbarth, gan ddefnyddio cyllid datblygu economaidd rhanbarthol fel ysgogiad i ddod â phartneriaid ynghyd a denu cyllid ychwanegol.

Rydym yn rhagweld model datblygu economaidd rhanbarthol sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd, yn gweithio tuag at ganlyniadau strategol a ddiffiniwyd yn genedlaethol. Byddwn yn cefnogi pob rhanbarth i ddatblygu'r cynlluniau hynny, gan adeiladu capasiti lle bo angen, a chydweithio i lunio ffyrdd o fuddsoddi i annog twf ar sail cryfderau a heriau penodol pob rhanbarth. Rydym am weld mwy o allu o fewn rhanbarthau i wneud cynlluniau a phenderfyniadau, gan adeiladu ar ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol a datblygu economaidd rhanbarthol.

Bydd ein prif fframwaith ar gyfer buddsoddi yn gosod rheolau ar ddefnyddio cyllid amgen ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol, gan gydnabod mai rhan o'r darlun yn unig yw'r cyllid hwn. Nid bwriad y rheolau hynny yw ailadrodd rheolau'r UE yn unig, yn hytrach byddant yn gyson gyda'n hegwyddorion buddsoddi ar gyfer defnyddio cyllid cyhoeddus ar draws y Llywodraeth yn gyfan.

Bydd gwahanol heriau a chyfleoedd yn codi mewn gwahanol fannau wrth gwrs, a bydd angen hyblygrwydd i sicrhau bod modd i bob rhanbarth fuddsoddi'n briodol. Gall gwahanol ddiwydiannau a chymysgedd o sgiliau ofyn am strategaethau buddsoddi amrywiol – felly hefyd y gwahanol nodweddion daearyddol neu ddemograffig mewn rhanbarth. Yn yr un modd ag y mae Llywodraeth Cymru yn y lle gorau, gyda'i phartneriaid, i ddarparu prif bolisi integredig i Gymru, mae pob rhanbarth yn y lle gorau i adnabod blaenoriaethau penodol yn eu hardaloedd ac ar gyfer eu pobl.

Fel egwyddor gyffredinol, dylai polisïau a phenderfyniadau gael eu gwneud mor agos â phosib i'r rhai sy'n cael eu heffeithio. Rydym am i'n partneriaid ym mhob un o'n rhanbarthau gael eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau, penderfyniadau a blaenoriaethau. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd cyflawni cynlluniau buddsoddi integredig cymhleth yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio ac ailedrych ar adnoddau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau sy'n defnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd gwahanol.